Adran Y Weinidogaeth Iacháu
The Healing Ministry Section

Cylchlythyr Gwanwyn 2006

Mae rhai yn meddwl mae pobl od sy'n mynd i'r Ysgol Haf, ond gallaf eich sicrhau bod hyn yn hollol anghywir. 'Rwyf fi yn credu yn gryf mewn pŵer y Iachad ac wedi PROFI y peth ar ddau achlysur : Pan oeddem mewn *"coma"* yn Ysbyty Mombasa, Kenya yn y flwyddyn 1998, a'r meddygon yno yn gorfod cysylltu ar y ffôn a'm Meddyg i yn Cross Hands. 'Dwyf ddim yn cofio llawer am y digwyddiadau ond, nes ymlaen bu rhaid i'r awdurdodau drefnu i Nyrs hedfan allan o Prydain a trefnu i gael gwely yn Caban 1st Class BOEING 747. Y Nyrs yma yn cyd-deithio gyda mi i o Kenya i Ysbyty Tywysoges Cymru yn Pen-y-Bont ar Ogwr am bod fy mab yn byw yn Y Bont-Faen. A'r ail achlysur roeddwn mewn gwaeledd yn Ysbyty Y Tywysog Philip yn Llanelli yn y flwyddyn 2003, ac yn colli tua dwy *Stone* o bwysau mewn chwech wythnos a'r Meddygon yn meddwl am Cancr. (Collais y Blaendal o £10 i'r Weinidogaeth Iachau am fy mod yn methu mynd yno). Roedd llawer mewn sawl lle yn gweddïo trosof amser y digwyddiadau hyn.

Bellach rwyf wedi derbyn llwyr iachad a rhoi'r diolch i Dduw; nid symud mynyddoedd yn llythrennol gwelwn Ef heddiw, ond mae'n ein cynorthwyo ni i'w dringo yn hyderus a'n codi uwchben pob peth sydd yn ein blino. Y mae galw arnom i ymostwng a cydnabod Duw fel Arglwydd ar ein bywydau – Duw a'n piau ni, ond nid y ni piau Duw. Dim ond Ef all ein iachau ni yn gorfforol, meddyliol ac yn ysbrydol, a boed i ni ddiolch heddiw am fod Newyddion Da gennym i'w cyhoeddi i eraill.

David J Hughes, Cross Hands

Mae'n siŵr fod llawer ohonom wedi clywed am Dr Rhiannon Lloyd, a'r gwaith mae hi wedi bod yn ei wneud yn cynnal gweithdai cymod a maddeuant yn Rwanda ac ardaloedd eraill lle bu gwrthdaro ethnig. Yn ddiweddar bu'n arloesi yma yng Nghymru i weld os yw'r un ddysgeidiaeth yn addas ar gyfer creu cymod rhwng Cymry Cymraeg eu hiaith a Chymry Saesneg eu hiaith a mewnfudwyr. Cefais y profiad o fod yn rhan o rai o'r gweithdai cynnar hyn. Er mai dod â chymod rhwng grwpiau ethnig yw'r baich sydd ar galon Rhiannon,credaf fod y ddiwinyddiaeth sy'n sail gadarn i'w gweithdai yn ehangach na dim ond yr un sefyllfa hon.

Canolbwynt ei gweithdai yw gwaith Crist ar y groes. Dywed yr Ysgrythur am Iesu: *ef sy'n aberth cymod dros ein pechodau, ac nid ein pechodau ni yn unig, ond hefyd pechodau'r holl fyd.* 1 Ioan 2:2 Rydym yn troi yn edifeiriol at Dduw yn ddyddiol, ar sail y groes, i ofyn am faddeuant am ein pechodau. Ac mae'r rhyddhad sy'n dod o dderbyn ei faddeuant yn rhyddid sy'n iachau.

Ond mae'r groes hefyd yn foddion i'n rhyddhau o afael pechod eraill arnom. Dywed Eseia, wrth sôn am y gwas dioddefus: *Eto, ein dolur ni a gymerodd, a'n gwaeledd ni a ddygodd – a ninnau'n ei gyfrif wedi ei glwyfo gan Dduw, a'i darostwng. Ond archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd.* Eseia 53:4,5 Mae gwaith Crist ar y groes yn cwmpasu hyn i gyd. Ac felly fe gawn ddod â'n dolur a'n gwaeledd ato. Cawn ddod â'r dolur mae pechod eraill wedi achosi i ni at y groes, ac fe wneith Iesu ei gario trosom. Ein 'dolur' a'n 'gwaeledd' – yn y gwreiddiol, dau air sy'n golygu: salwch, dioddefaint, poen, afiechyd, tristwch a chlwyf (sickness, suffering, pain, disease, sorrow, wound.) Mae Crist wedi dwyn y rhain i gyd ar y groes; fe gymer hwy i gyd oddi arnom os rhown ni nhw iddo.

Un peth yn arbennig a ddysgais gan Rhiannon: ni ellir rhoi'r boen i Iesu heb fod wedi ei deimlo i'r byw yn gyntaf. Os ydych fel fi, fe fyddwch yn un da iawn am wthio briw o'r golwg, ei wadu, a gadael iddo gronni rhywle yng ngwaelod fy nghalon, a'm gwenwyno. Mae poen nad ydym yn barod i'w gydnabod yn ein chwerwi a'n cloffi, a'n caethiwo. Nid oes rhaid inni gario'r briwiau mae pechod eraill wedi eu hachosi i ni. Dyma ei wahoddiad pa fo'n dweud: *Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystra i chwi.* Mathew 11:28 Wrth eu rhoi ar y groes rydym yn cael ein rhyddhau o'u gafael, ac yn gallu maddau a chael gwir iachâd, sef y shalôm mae Iesu yn ei roi.

Parch. Angharad Roberts, Trefor

Mae copi o'r cylchlythyr hwn ar safle we yr enwad:
www.ebcpcw.org.uk

Marian Lloyd Jones
Gwylfa
Allt-Ty-Gwyn
Rhosllannerchrugog
Wrecsam
LL14 1EL Ffôn: 01978 846151
E bost: Geraint.W.Jones@btinternet.com

DYDDIADAU (Bydd manylion yn Y Goleuad)
Ebrill 29ain 2pm Capel Newydd, Llanddarog
Mai 20fed Capel y Rhos, Llanrug
Medi 14eg Tabernacl Aberaeron
Hydref 14eg Capel Carmel, Conwy
Gorffennaf 17—19 Ysgol Haf yn Gregynog

Pwysig! Gellir anfon ceisiadau gweddi ataf drwy ffôn, llythyr neu e bost.
Diolch. Marian

YSGOL HAF 2005

gan

Parch Olwen E Williams, Tudweiliog

Clywais lawer un yn rhannu profiad ar ddiwedd Ysgol Haf , ac ar ôl eleni rwyf innau'n awyddus i rannu.

Mae cariad fy merch, Bethan, sef Dafydd wedi bod yn dioddef oddiwrth boen mawr yn ei ben, ers deunaw mlynedd, ar byliau. Pan oedd yn 13, y cafodd y boen am y tro cyntaf, a byth ers hynny, y mae tri mis o bob blwyddyn , yn cael ei dreulio yn ei wely, oherwydd na all ddioddef y boen ac y mae'n cymeryd cymaint allan ohono.

Mae'r meddyg teulu wedi bod yn ei weld ers y dechrau, mae wedi bod mewn ysbytai, ym Mangor ac yn Fazakerley, Lerpwl ac wedi gweld llawer i arbenigwr, a phob un, un ai wedi methu gweld beth yw'r broblem, neu wedi meddwl eu bod yn gwybod, ond y rhan amlaf dweud maent nad oedd ganddynt y syniad lleiaf beth ydyw.

Buont yn dyfalu unwaith mai "Epilepsi" oedd, a chollodd ei drwydded yrru am ychydig. Wedi gweld nad oedd y fath beth arno, ac iddo gael ei drwydded yn ôl, bu pob math o syniadau yn cael eu gwyntyllu, yn enwedig "Migrane", ond 'doedd dim golwg fod Dafydd yn gwella dim, a'r pyliau yn mynd yn amlach, ac yntau wedi colli ffydd mewn meddygon ac yn gwanhau'n gorfforol a meddyliol. Peth sobor oedd bod yn wael a neb yn gwybod beth oedd.

Mis Mehefin diwethaf, cafodd fwy nag arfer o boen, a pharhaodd yn hirach, ac erbyn Gorffennaf, wedi bod yn ei wely am tua chwech wythnos, 'roedd bron a dod i ben ei dennyn.

Ar y diwrnod cyntaf o'r Ysgol Haf, yn y cylch gweddi cyntaf, gofynais am weddiau dros Dafydd, y buasai rhyw fath o feddyginiaeth iddo. Ar ôl y Cylch Gweddi, teimlais fod yn rhaid imi ffonio Bethan yn ei gwaith, a chefais wybod, ar yr union amser y buom yn gweddio, 'roedd Bethan wedi ffonio ei feddyg teulu, i ddweud ei bod hi wedi cael hanes meddyg yn Llundain, oedd yn delio yn uniongyrchol hefo "Migrane", ac wedi crefu arno ei gyfeirio at y meddyg hwnnw, cytunodd y meddyg, a chafodd apwyntiad ym mis Tachwedd.

Gan fod Dafydd yn teimlo ychydig yn well, yr wythnos honno aeth i weld meddyg arall, sy'n gweithio iddo'i hun, yng Ngogledd Cymru, ac yn rhoi meddyginiaethau llysieuol, ac yn gallu dweud lle mae tarddiad poen. Wedi bod yno a chael triniaeth, newidiodd Dafydd yn llwyr, a dechreuodd wella. Pan aeth i Lundain i weld yr arbenigwr, cafodd wybod i sicrwydd mai "cluster headaches" sydd arno, ac y mae wedi derbyn meddyginiaeth tuag ato, i'w cymeryd pan ddaw y boen eto.

Cafodd gymaint o ryddhad fod rhywun wedi gallu dweud wrtho beth yw ei broblem, a bellach mae ei hyder wedi dod yn ôl, ac mae ei agwedd at fywyd wedi newid.
Mae'r cwbwl wedi digwydd oherwydd gweddi.

I Dduw y bo'r diolch